Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Albert

**Albert Road**
**Penarth**
**CF64 1BX**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Albert

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Gynradd Albert |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bro Morgannwg |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 431 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 323 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 58 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 6.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 5.9% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 6.5% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | 01/09/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 24/11/2015 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 03/07/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o’r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai’r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i’r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy’r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Gynradd Albert yn ysgol wresog a gofalgar, lle mae staff yn rhoi blaenoriaeth uchel i les ei disgyblion. O ganlyniad i hyn, mae disgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn mwynhau cymryd rhan yn eu dysgu ac ym mywyd yr ysgol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda. Mae ganddynt berthnasoedd da â'i gilydd a'u hathrawon. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn unigol, gan gynnwys y disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu cryf. Ar draws yr ysgol, mae datblygiad medrau ysgrifennu disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu cymhwysedd yn eu medrau mathemategol ac yn trosglwyddo'r wybodaeth hon i feysydd eraill y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau Cymraeg priodol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Ar draws yr ysgol, fodd bynnag, nid yw athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau annibynnol, medrau datrys problemau, medrau meddwl a'u medrau creadigol yn ddigon da mewn gwersi a gweithgareddau.

Mae arweinwyr ac athrawon yn dechrau dylunio cwricwlwm sy'n adlewyrchu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn defnyddio diwrnodau trochi bob tymor i sbarduno diddordebau disgyblion yn eu gwaith thematig ac yn caniatáu cyfleoedd iddynt gyfrannu at yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn ystyried cyd-destun lleol yr ysgol a'i chymuned yn ddigon da, nac yn rhoi sylw priodol i ddiddordebau a chyfareddion disgyblion wrth iddynt gynllunio'r cwricwlwm.

Mae arweinwyr wedi datblygu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n gwerthfawrogi lles disgyblion yn fawr. Mae arweinwyr yn gweithio gyda'r corff llywodraethol ar gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol o fewn yr ysgol, er enghraifft cyflwyno diwygio ADY yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi ystyried yn ddigon da sut mae addysgu a dysgu yn adlewyrchu athroniaeth y Cwricwlwm i Gymru o fewn yr ysgol. Yn ychwanegol, nid yw arweinwyr yn cynnwys llywodraethwyr a staff yn ddigon rheolaidd yn eu prosesau hunanwerthuso.

## Argymhellion

A1 Gwella addysgu i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn datblygu medrau annibynnol, beirniadol, creadigol a datrys problemau cryf

A2 Datblygu cwricwlwm yr ysgol i gynnwys profiadau dysgu perthnasol a dilys sy'n diwallu anghenion dysgwyr

A3 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynnwys staff a llywodraethwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau a gwybodaeth yn debyg i ddisgwyliadau, neu'n uwch. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag ADY, y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn siaradwyr hyderus a huawdl. Maent yn siarad yn glir am eu dysgu ac yn gwrando'n dda ar eu cyfoedion a'u hathrawon. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynnwys ystod sy'n ehangu o eirfa yn benodol i bwnc ac yn parhau i ddatblygu eu medrau siarad a gwrando yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn esbonio'n huawdl y pwysau yn sgil y cyfryngau cymdeithasol a sut mae hyn yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles emosiynol.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn cymryd sylw da o'r lluniau. Wrth iddynt ddatblygu, maent yn defnyddio'u gwybodaeth am lythrennau a seiniau ac ystod addas o strategaethau i ddadgodio geiriau anhysbys yn effeithiol. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion iau yn darllen testunau'n gywir ond mae diffyg rhugldder a dealltwriaeth ganddynt. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt mewn agweddau eraill ar eu dysgu. Er enghraifft, wrth ddarllen testunau i'w cynorthwyo i ysgrifennu ffeil ffeithiau, maent yn cael trafferth gwneud synnwyr o'r wybodaeth a ddarparwyd. Erbyn yr adeg y mae disgyblion yn barod i adael yr ysgol, maent wedi caffael ystod eang o fedrau darllen uwch. Maent yn datblygu angerdd am ddarllen ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth ac yn siarad yn hyderus am yr hyn maent yn ei ddarllen.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu disgyblion yn datblygu'n dda ac mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion iau yn dechrau ysgrifennu'n annibynnol, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad am drip ysgol diweddar. Maent yn dod o hyd i eiriau o fanciau geiriau, ac yn eu copïo, i'w helpu i ffurfio brawddegau, ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o atalnodi syml. Fodd bynnag, ceir cyfle cyfyngedig i ddisgyblion ddefnyddio'u gwybodaeth ddatblygol am lythrennau a seiniau i ysgrifennu'n annibynnol a rhoi cynnig ar sillafu geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn ysgrifennu'n bwrpasol ac mae ganddynt amgyffrediad da o dechnegau sy'n gwella'u gwaith. Maent yn defnyddio'u dychymyg ac yn arbrofi â geirfa i greu storïau difyr, er enghraifft wrth ddisgrifio'r lleoliad ar gyfer eu gwaith ar Armada Sbaen. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig o waith mewn llythrennedd ac ar draws y cwricwlwm. Maent yn cymryd

amser i fyfyrio ar eu gwaith, gan ddrafftio a golygu eu hysgrifennu i'w fireinio. At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynhyrchu darnau o waith ysgrifenedig o ansawdd da ar draws holl feysydd y cwricwlwm.

Ar draws yr ysgol, mae datblygiad disgyblion o'u medrau Cymraeg yn amrywiol. Mae llawer o ddisgyblion iau yn ymuno â sgyrsiau gan ddefnyddio geirfa syml, er enghraifft wrth ofyn am hufen iâ yn yr ardal chwarae rôl. Erbyn yr adeg y maent yn cyrraedd Blwyddyn 3, mae llawer o ddisgyblion yn cynnal sgyrsiau byr yn gyfrinachol gyda phartner, er enghraifft wrth drafod eu teimladau, ac mae disgyblion Blwyddyn 6 yn disgrifio ble maent yn byw, eu hoffterau a'u casbethau. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw medrau Cymraeg disgyblion hŷn wedi'u datblygu'n ddigonol, ac nid ydynt yn adeiladu'n ddigon da ar ddysgu blaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau mathemategol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn adnabod ac enwi rhifolion ac yn galw amrywiaeth eang o siapiau dau ddimensiwn i gof. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o ffeithiau rhif priodol ac maent yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn dda i agweddau eraill ar eu dysgu, er enghraifft wrth chwarae rôl siopa â darnau arian. Mae disgyblion hŷn yn cynnal cynnydd yn dda, gan wneud ystod o gyfrifiadau'n hyderus. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o drin data. Maent yn defnyddio diagramau Venn i ddidoli eitemau, yn defnyddio siartiau cyfrif i gasglu data ac yn cwblhau tablau syml i gofnodi data. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo'u gwybodaeth i feysydd dysgu eraill yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn mesur hylifau a solidau yn eu gwersi gwyddoniaeth, yn cofnodi eu canlyniadau mewn tablau ac yn cyflwyno'u canfyddiadau mewn graffiau llinell.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod fuddiol o fedrau digidol sy'n eu helpu i gefnogi eu dysgu. Mae disgyblion iau yn defnyddio ystod o offer a rhaglenni ar-lein i gefnogi datblygiad eu medrau llythrennedd a mathemategol. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio offer animeiddio i greu stori ar gyfer disgyblion dosbarth derbyn yn seiliedig ar eu thema môr-ladron. Mae disgyblion hŷn yn creu synwyryddion golau i ddarganfod y lle gorau i dyfu eu ffa dringo yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau corfforol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn symud yn hyderus o gwmpas yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored, ac yn datblygu medrau cydsymud da wrth ddefnyddio offer bach. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn ystod gwersi addysg gorfforol, ac yn datblygu ystod ddefnyddiol o fedrau.

Mae disgyblion yn datblygu ystod briodol o fedrau creadigol ac yn gwneud cynnydd addas yn defnyddio'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion iau yn defnyddio adnoddau naturiol i greu delweddau a phatrymau yn seiliedig ar eu gwaith thematig. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i greu delweddau creadigol, er enghraifft defnyddio amrywiaeth o hidlyddion i dynnu llun rhew yn toddi o bellter byr.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn datblygu medrau meddwl a datrys problemau addas trwy eu gwersi gwyddoniaeth. Maent yn dangos meddwl clir wrth gynllunio a llunio

casgliadau yn eu hymchwiliadau, er enghraifft wrth ystyried yr amodau gorau ar gyfer tyfu planhigion. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl, datrys problemau a’u medrau creadigol yn ddigon da ar draws yr ysgol, ar y cyfan.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol â staff a chyfeillgarwch parchus â’i gilydd. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau’r ysgol o ymddygiad, ac o ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais a moesgar â staff ac ymwelwyr. Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes angen cymorth arnynt.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau dysgu ac fel arfer yn gwrando ac yn cymryd rhan yn briodol mewn gwersi. Mae llawer ohonynt yn mwynhau gweithio mewn parau a grwpiau, yn rhannu syniadau ac yn hapus i gymryd eu tro. Maent yn aml yn falch o’u gwaith ac yn awyddus i rannu eu dysgu ag ymwelwyr. Mae llawer o ddisgyblion ym Mlwyddyn 5 a Blwyddyn 6 yn aml yn ymgysylltu’n dda â thasgau ac yn dangos brwdfrydedd am ddysgu. Fodd bynnag, yn ystod gwersi lle mae athrawon yn darparu gormod o gymorth a chyfarwyddyd, mae ychydig o ddisgyblion yn colli diddordeb ac nid ydynt yn datblygu eu medrau dysgu’n annibynnol yn effeithiol.

O roi cyfleoedd iddynt siarad am ddysgu gyda staff ac ymwelwyr, mae disgyblion yn datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o’r cysyniadau maent yn eu hastudio. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, mae disgyblion yn dechrau awgrymu ffyrdd o ymestyn eu dysgu. Mae disgyblion iau yn gwneud awgrymiadau i ymateb i’r cwestiynau y gofynnir iddynt wrth rannu storïau. Maent yn dechrau cysylltu eu dysgu â’u bywydau eu hunain, er enghraifft wrth drafod pryd y gallent weld enfys. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 3 yn awgrymu cynrychioli data y maent wedi’i gasglu fel siartiau cylch yn hytrach na graffiau bar. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn dod i’r casgliad y byddai eu hymchwiliad gwyddoniaeth yn elwa ar fwy o brofion i sicrhau bod eu canlyniadau’n fwy cywir. Erbyn yr adeg y maent yn gadael yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau gwneud penderfyniadau am eu dysgu. Maent yn dechrau creu cysylltiadau cryfach â’u profiadau bywyd ac â gyrfaoedd posibl yn y dyfodol.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi’r adborth a gânt gan athrawon yn ystod gwersi. Maent yn defnyddio meini prawf llwyddiant yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu’n estynedig, i nodi’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Mae disgyblion hŷn yn cyfrannu’n dda at gyfleoedd i fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill, ac yn deall sut mae hyn yn eu helpu i ddysgu. Fodd bynnag, at ei gilydd, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i feddwl trwy broblemau, ffurfio’u syniadau eu hunain, neu nodi’r camau nesaf yn eu dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 4 i 6 yn ymgymryd â rolau arwain addas, er enghraifft fel aelodau o’r Cyngor Ysgol, y Pwyllgor Eco a’r Criw Cymraeg. Mae’r Pwyllgor Eco yn plannu blodau o gwmpas tir yr ysgol ac yn ymweld â chanolfan ailgylchu i ymestyn eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd. Mae ychydig o ddisgyblion yn cynrychioli’r Criw Cymraeg yn yr Eisteddfod Genedlaethol, ac mae’r Cyngor Ysgol yn codi arian ar gyfer elusennau yn rheolaidd. Mae llai o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol, i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir neu i gyfrannu eu syniadau am sut maent yn dysgu.

Mae disgyblion yn dysgu sut i fod yn iach a hyderus, ac yn deall sut mae diet, gweithgarwch corfforol ac iechyd meddwl yn effeithio ar ansawdd eu bywyd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i fod yn egnïol yn ystod amser chwarae ac yn ystod gwersi fel rygbi, pêl-rwyd a dawns. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i aros yn ddiogel ar-lein, gan gadw eu manylion personol yn breifat a siarad ag oedolyn y maent yn ymddiried ynddo os bydd problemau'n codi.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae staff ar draws yr ysgol yn datblygu perthnasoedd gweithio da â disgyblion. Maent yn meithrin perthnasoedd parchus ac ymddiriedus lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae hyn yn creu awyrgylch da ar gyfer dysgu, ac o ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mynd ati'n gyflym i wneud eu gwaith ac yn ymddwyn yn dda mewn gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn esbonio tasgau'n glir i ddisgyblion ac yn eu helpu i ddeall beth i'w wneud, a sut. Maent yn rhannu nodau dysgu gyda disgyblion yn ystod gwersi gan amlinellu eu disgwyliadau. Fodd bynnag, mae'r rhain yn aml yn rhy eang ac nid ydynt bob amser yn cyd-fynd â deilliannau bwriadedig y dysgu. Pan mae'r addysgu'n fwyaf effeithiol, mae athrawon yn oedi'r dysgu i wirio dealltwriaeth disgyblion ac yn defnyddio cwestiynau'n dda i'w helpu i esbonio'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu sbardunau defnyddiol ar gyfer dysgu i ddisgyblion eu dilyn sy'n eu helpu i wella'u gwaith. Maent yn rhannu meini prawf llwyddiant yn briodol, sy'n cynorthwyo disgyblion i werthuso'u gwaith eu hunain. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall beth maent yn ei wneud yn dda. Yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd yn ystod gwersi a gweithgareddau i herio meddwl disgyblion a dyfnhau eu dysgu.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o asesiadau i fesur cyrhaeddiad disgyblion, olrhain eu cynnydd a nodi'r rhai y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt. Caiff disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol eu monitro a'u gwerthuso'n agos i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd priodol. Nid yw athrawon, fodd bynnag, bob amser yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o asesiadau yn ddigon da i lywio camau nesaf y disgyblion mewn dysgu neu wneud newidiadau perthnasol i'w haddysgu. O ganlyniad, ni chaiff disgyblion eu herio'n briodol yn ystod gwersi bob amser, ac nid ydynt yn gwneud y cynnydd y gallant ei wneud. Mae adroddiadau i rieni yn glir ac addysgiadol. Maent yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd a medrau personol a chymdeithasol eu plentyn, ynghyd â thargedau gwella ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ysgol wedi seilio dyluniad ei chwricwlwm ar y chwe maes dysgu a thrwy ddatblygu tair thema drosfwaol. Mae'r themâu hyn yn ffurfio canolbwynt gweledigaeth yr ysgol i greu ymdeimlad o berthyn, gwybodaeth am amrywiaeth a dealltwriaeth gref o les. Mae diwrnodau trochi'r ysgol ar ddechrau pob thema yn dal syniadau disgyblion yn llwyddiannus am yr hyn y maent eisiau ei ddysgu. Mae'r ysgol yn dechrau datblygu cwricwlwm graddol trwy ei gwaith cydweithredol â'u hysgolion lleol. Yn yr enghreifftiau lleol, mae athrawon yn cynllunio ymweliadau a phrofiadau cyffrous i ysgogi dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol fel rhan o'u gwaith llythrennedd ar ysgrifennu canllawiau ar deithiau. Nid yw'r ysgol, fodd bynnag, wedi rhoi ystyriaeth ddigon da i sut y bydd yn datblygu'i

chwricwlwm ei hun yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Nid yw testunau ysgol gyfan wedi'u seilio ar anghenion yr ysgol, ei bro a'r gymuned a diddordebau a chyfareddion y disgyblion. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud cysylltiadau perthnasol â'u bywydau eu hunain a'u cymuned yn eu dysgu.

Mae staff yn datblygu diwylliant cadarnhaol o ddarllen ar draws yr ysgol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion rannu llyfrau gyda'i gilydd, eu hathrawon ac adref. Mae'r ysgol yn darparu trefniadau addas i ddisgyblion ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg o fewn gwersi Cymraeg. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio'n briodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn medrau darllen, ysgrifennu a mathemategol. Fodd bynnag, mae cynllunio ar gyfer dilyniant medrau ehangach yn llai datblygedig, er enghraifft datblygu medrau datrys problemau a medrau creadigol disgyblion.

Mae gan yr ysgol ethos cryf o ran datblygu iechyd a lles emosiynol disgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ac yn iach. Maent yn trafod diogelwch personol yn sensitif gyda disgyblion a sut i adnabod perthnasoedd anniogel ar-lein. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ennill dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn ymchwilio i bobl a lleoedd a thraddodiadau Brasil, ac mae disgyblion hŷn yn astudio effaith newid hinsawdd yn fyd-eang.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae staff yn Ysgol Gynradd Albert yn creu cymuned ofalgar ar gyfer disgyblion a'u teuluoedd. Maent yn meithrin perthnasoedd cryf â rhieni a gofalwyr, gan roi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt sy'n eu galluogi i gefnogi dysgu eu plentyn adref. Mae arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn ymateb yn sensitif i anghenion emosiynol disgyblion, gan eu galluogi i ddatblygu hyder a gwydnwch. Mae'r ethos gofalgar a chefnogol hwn yn helpu pob un o'r disgyblion i gynefino'n gyfforddus â bywyd ysgol, ac yn cyfrannu at eu lles a'u hapusrwydd. Mae staff yn cynnwys bron pob un o'r rhieni ym mywyd yr ysgol trwy ddigwyddiadau, gweithdai, a chyfleoedd rheolaidd i drafod dysgu a chynnydd eu plant.

Mae CydADY (Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol) yr ysgol wedi datblygu system gymorth gynhwysfawr ar gyfer staff, disgyblion a rhieni. Mae bron pob un o'r staff yn derbyn hyfforddiant addas sy'n eu galluogi i nodi, darparu ac adolygu'r cymorth sy'n diwallu anghenion disgyblion orau. Mae'r CydADY yn monitro effaith y cymorth yn ofalus ac yn gweithio gyda staff i sicrhau bod ymyrraeth yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol yn effeithiol ac mae bron pob un ohonynt yn gwneud cynnydd disgwyliedig o leiaf o'u mannau cychwyn unigol.

Mae athrawon yn dechrau ystyried ffyrdd o gyfoethogi'r cwricwlwm, er enghraifft trwy ddiwrnodau trochi ac ymweliadau yn gysylltiedig â'r testunau y maent yn eu cynllunio. Mae trip i faenordy lleol fel rhan o destun ar y Tuduriaid, er enghraifft, yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a dilys ar gyfer disgyblion sy'n eu galluogi i drosglwyddo'r hyn y maent yn ei ddysgu yn ôl i'r ystafell ddosbarth. Mae ymwelwyr â'r ysgol yn codi dyheadau disgyblion, ac o bryd i'w gilydd, mae profiadau ystyriol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ystyried llwybrau gyrfa posibl. Fe wnaeth

disgyblion hŷn elwa'n fawr ar y cyfle i greu, cynllunio, trefnu a gwerthuso taith o'r Amgueddfa Genedlaethol. Mae gwaith yr ysgol ar grefydd, gwerthoedd a pherthnasoedd yn cefnogi datblygiad ysbrydol disgyblion yn briodol. Mae'r gwaith hwn yn eu hannog i feddwl am eu lles eu hunain ac effaith eu gweithredoedd ar bobl eraill. Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a thwrnameintiau chwaraeon. Maent wir yn mwynhau'r clybiau niferus ôl-ysgol a gynigir, fel gwyddbwyll, Sbaeneg a phêl-droed.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ymuno â grwpiau arweinyddiaeth disgyblion. O bryd i'w gilydd, mae'r grwpiau hyn yn gofyn am farn disgyblion ar draws yr ysgol. Er enghraifft, yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor Ysgol arolwg ynglŷn â sut gallai'r ysgol wella'r clybiau sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, yn aml, caiff disgyblion eu dewis gan staff, ac nid ydynt yn gosod blaenoriaethau addas ar gyfer camau gweithredu yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad, mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu i fod yn arweinwyr trwy'r profiadau hyn, yn gyfyngedig.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd a chredoau pobl eraill ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol, foesol a chymdeithasol trwy wersi ac fel rhan o'u haddoli ar y cyd. Maent yn dysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, yn canu'r Anthem Genedlaethol wrth gefnogi timau chwaraeon cenedlaethol, yn perfformio dawnsiau gwerin, ac yn archwilio adeiladau, celf a llenyddiaeth y wlad. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn dechrau meddwl am hawliau dynol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn dysgu sut i helpu pobl eraill os byddant yn gweld bwlio ac mae disgyblion ym Mlwyddyn 4 yn dadansoddi effaith llygredd ar ein cyflenwad dŵr. Mae disgyblion hŷn yn ystyried helyntion pobl sydd wedi'u heffeithio gan newid hinsawdd ac yn dechrau eirioli am newid i fenywod yn y gweithle. Mae'r profiadau hyn yn dechrau cefnogi dealltwriaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda.

Mae gan yr ysgol systemau trylwyr ar gyfer monitro presenoldeb disgyblion, ac yn cysylltu â rhieni mewn modd amserol pan fydd pryderon. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi dealltwriaeth disgyblion o sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Mae'r ysgol wedi datblygu systemau cadarn i sicrhau diogelwch yr holl ddisgyblion, ac mae pob un o'r arweinwyr a'r staff yn hyrwyddo diwylliant gweithgar o ddiogelu ar draws yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth a'r uwch arweinwyr weledigaeth ar y cyd ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ddisgyblion yn datblygu agwedd gallu gwneud a chariad cadarnhaol at ddysgu. Maent yn ystyried lles a hapusrwydd disgyblion ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, gan greu cymuned ofalgar a chefnogol. Mae staff yn defnyddio'r weledigaeth hon i osod disgwyliadau uchel ar gyfer safonau mewn meysydd dysgu allweddol, gan gynnwys darllen, ysgrifennu a mathemateg. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro'n cyfleu'r un disgwyliadau uchel i ddisgyblion wneud yr un cynnydd yn y cwricwlwm ehangach. Er enghraifft, mae llawer o weithgareddau yn cyfyngu cyfleoedd i ddisgyblion iau gyfeirio'u dysgu eu hunain, bod yn greadigol a datrys problemau yn annibynnol.

Mae'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i waith yr ysgol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r ysgol a'r cynnydd y mae'r ysgol yn ei wneud

tuag at godi safonau. Maent yn defnyddio'u profiad proffesiynol i gynorthwyo arweinwyr yr ysgol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, yn enwedig profiad sy'n gysylltiedig â'r cynnydd o ran diwygio ADY. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o gyllideb yr ysgol ac maent yn cynorthwyo uwch arweinwyr yn dda â gwneud penderfyniadau ariannol anodd. Maent yn gwneud defnydd da o gyllid ychwanegol pan fydd ar gael; er enghraifft, galluogodd cyllid o'r eglwys leol i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig fynychu ymweliad preswyl. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i lywodraethwyr gael eu cynnwys mewn cefnogi gweithgareddau hunanwerthuso. O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn dibynnu'n helaeth ar y wybodaeth a gyflwynir gan arweinwyr yr ysgol yn hytrach nag ennill gwybodaeth uniongyrchol i sicrhau ansawdd.

Mae uwch arweinwyr yn gwerthuso ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn rheolaidd ac yn gweithio gydag athrawon i osod targedau perfformiad unigol yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol a safonau addysgu. Fodd bynnag, nid yw strategaethau addysgu a dysgu wedi'u datblygu'n ddigonol i adlewyrchu athroniaeth y Cwricwlwm i Gymru, ac fe gaiff hyn effaith negyddol ar ddarpariaeth ystafell ddosbarth, yn enwedig ar gyfer y disgyblion iau. Er enghraifft, nid ydynt yn sicrhau bod athrawon yn darparu profiadau ysgogol a difyr sy'n herio disgyblion yn briodol ac yn dyfnhau eu dysgu.

Mae uwch arweinwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni ac yn darparu cyfleoedd i rieni ymweld â'r ysgol ac ymgysylltu â dysgu eu plentyn. Er enghraifft, mae rhieni disgyblion hŷn yn mynychu gwersi diogelwch ar-lein wythnosol gyda'u plentyn.

Mae arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i werthuso cynnydd disgyblion ac agweddau ar fywyd ysgol sy'n effeithio ar ddysgwyr yn uniongyrchol. O bryd i'w gilydd, mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o ddisgyblion a rhieni yn y broses hon ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniadau, er enghraifft darparu cyfle i rieni rannu eu barn ar ddefnyddioldeb adroddiadau disgyblion i rieni. O ganlyniad uniongyrchol i fonitro rheolaidd, mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth dda o effaith camau gwella'r ysgol ar ddarpariaeth a chynnydd, er enghraifft effaith gadarnhaol cyflwyno Ffrangeg fel iaith ryngwladol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd cyfyngedig i bob un o'r staff gyfrannu'n bwrpasol at brosesau hunanwerthuso yn yr ysgol. O ganlyniad, maent yn dibynnu'n helaeth ar y wybodaeth y mae uwch arweinwyr yn ei rhoi iddynt am ddeilliannau gweithgareddau fel dadansoddi data disgyblion.

Mae uwch staff yn gweithio'n agos gydag ysgolion yn eu hardal leol i ddatblygu'r 'Cwricwlwm i Albert' a chynllunio dilyniant ar gyfer dysgwyr. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o strategaethau asesu buddiol i gefnogi dealltwriaeth disgyblion o'r hyn y maent yn ei wneud yn dda. Yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r strategaethau hyn ac yn dangos cynnydd da, yn enwedig mewn ysgrifennu. Mae'r ysgol yn dechrau casglu a dadansoddi data cynnydd ar gyfer disgyblion unigol a grwpiau o ddysgwyr. Defnyddir y wybodaeth hon yn dda ar draws yr ysgol i sicrhau bod deialog broffesiynol yn gysylltiedig â chynnydd disgyblion yn bwrpasol ac yn llywio cynllunio athrawon.

Mae uwch arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i athrawon arsylwi arfer dda mewn ysgolion eraill yn eu hardal leol. Er enghraifft, o ganlyniad i'r ffocws diweddar ar wella addysgu mathemateg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn

gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemategol a rhifedd. Mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg ac yn defnyddio arbenigedd athrawon o fewn yr ysgol i gyflwyno gwersi Cymraeg i ddisgyblion ar draws yr ysgol. Mae gan arweinwyr weithdrefnau cadarn ar gyfer diogelu disgyblion ac maent yn sicrhau bod pob un o'r staff yn deall ac yn hyrwyddo diwylliant diogelu'r ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny’n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion, lle bo’n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo’n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae’r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2023